# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO

## (Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)

**Aelodau yn bresennol:** **Dydd Llun, 25 Tachwedd 2019**

**Cadeirydd:** Councillor S.Paddison

**Is-gadeiydd:** Councillor D.Whitelock

**Cynghorwyr**: J.Miller

**Swyddogion yn bresebbol:** Neil Chapple and N.Headon

---

1. **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED MANGRE - PREMIER STORES**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol i amrywio Trwydded Mangre a gymeradwywyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Premier Stores |
| Cyfeiriad y fangre | Stryd Fawr, Cwmgwrach, SA115TA |
| Enw'r ymgeisydd | Rebecca James |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | Tŷ Siloh, Heol Wenallt, Cwmgwrach |
| Enw'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig | Andrea Dawn Davies |

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r cais i amrywio Trwydded Mangre – Premier Stores, Stryd Fawr, Cwmgwrach, SA11 5TA a wnaed gan Rebecca James, Tŷ Siloh, Heol Wenallt, Cwmgwrach, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac yn amodol ar yr amodau canlynol;

1. Estyn y fangre i gynnwys lle i werthu ar y safle ac oddi yno a newid cynllun y fangre i gynnwys caffi bistro yn y cefn.

2. Cyflenwi alcohol yn y fangre ac oddi arni:

   Dydd Llun i ddydd Sul: 06:00 – 23:30

   Mae'r ymgeisydd wedi cytuno â'r heddlu y bydd alcohol yn cael ei werthu o'r caffi/bistro yn unig rhwng 11:00 a 23:30

3. Oriau agor y fangre:

   Dydd Llun i ddydd Sul: 06:00 - 23:30

   Mae'r ymgeisydd wedi cytuno â'r heddlu y bydd alcohol yn cael ei werthu o'r caffi/bistro yn unig rhwng 11:00 a 23:30

<u>Amodau</u>

Trosedd ac Anhrefn:

4. Gosodir teledu cylch cyfyng fel y gellir monitro ardaloedd trwyddedadwy gan gynnwys mynedfeydd, allanfeydd a chefn y fangre. Cedwir y ffilm am o leiaf 28 niwrnod a bydd ar gael i'w harchwilio gan swyddogion awdurdodedig.

5. Ni chaniateir mynediad ar unrhyw adeg i unrhyw un sy'n cario gwydrau agored neu wydrau a seliwyd.

6. Ni chaniateir mynd ag alcohol sydd wedi'i brynu yn y siop i mewn i'r bistro dan unrhyw amgylchiadau. Caiff pob diod ei gweini mewn gwydr, ni fydd caniau na photeli ar gael.

7. Bydd llyfr cofnod achosion yn cael ei gadw yn y fangre ar gyfer archwiliadau gan swyddogion awdurdodedig.

8. Ni chaniateir mynediad ac ni werthir alcohol i unrhyw berson sy'n feddw ac/neu sy'n ymddwyn yn afreolus ac ni chaniateir iddo aros yn y fangre.

Diogelwch y Cyhoedd:

9. Bydd cofnod neu system recordio yn cael ei gadw yn y fangre ac ynddo nodir manylion yr archwiliadau a wnaed; y rheini y mae'n ofynnol eu gwneud yn statud a gwybodaeth a gasglwyd i gydymffurfio ag unrhyw amod sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd sydd ynghlwm

wrth y drwydded mangre sy'n gofyn am gofnodi gwybodaeth o'r fath. Bydd y llyfr cofnodion ar gael i'w archwilio pan fydd yn ofynnol gan bersonau a awdurdodwyd gan Ddeddf Trwyddedu 2003 neu ddeddfwriaeth gysylltiedig.

10. Darperir mynediad digonol ar gyfer cerbydau brys a phersonol.

11. Bydd pob rhan o'r fangre a'r holl osodiadau a chyfarpar ynddi, gan gynnwys ffasnyddion a hysbysiadau drysau a'r seddi, goleuadau, system wresogi, system drydanol, system awyru, cyfleusterau iechydol, cyfleusterau golchi a gosodiadau eraill yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da a diogel bob amser.

12. Dylid archwilio'r fangre cyn iddi agor i'r cyhoedd i sicrhau nad oes unrhyw risgiau i gwsmeriaid a bod yr holl ragofalon diogelwch ar waith.

13. Hyfforddiant priodol ynghylch rhagofalon a gweithdrefnau brys a chyffredinol.

14. Sicrhewch fod yr holl staff yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cymdeithasol a chyfreithiol a'u cyfrifoldebau o ran gwerthu alcohol.

15. Bydd dŵr yfed ar gael am ddim bob amser yn ardal y bistro pan fydd y fangre ar agor i'r cyhoedd.

16. Rhaid clirio'r holl boteli, gwydrau a sbwriel o ardaloedd cyhoeddus yn rheolaidd ac yn aml.

17. Bydd y system drydanol yn y fangre yn cael ei harchwilio a'i phrofi gan berson cymwys. Bydd person cymwys yn drydanwr â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru gyda'r ECA neu NICEIC.

18. Rhaid cadw'r holl dystysgrifau diogelwch ac adroddiadau arolygu ar y safle ac ar gael i'w harchwilio gan swyddog cyrff statudol perthnasol.

19. Rhaid i'r mesurau diogelwch tân a ddarperir yn y fangre gael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da a bydd eu digonolrwydd yn cael ei bennu'n rheolaidd, trwy gynnal asesiad risg tân fel sy'n ofynnol gan ac yn unol â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).

Atal Niwsans Cyhoeddus:

20. Bydd hysbysiadau clir a darllenadwy amlwg yn cael eu harddangos wrth bob allanfa yn gofyn i'r cyhoedd barchu anghenion y preswylwyr a gadael y fangre'n dawel.

21. Bydd deunyddiau sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r busnes yn cael eu dosbarthu ar yr adegau hynny neu mewn modd sy'n atal niwsans ac aflonyddwch i breswylwyr.

22. Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod staff sy'n cyrraedd yn gynnar yn y bore neu'n gadael yn hwyr yn y nos, pan fydd oriau masnachu'r busnes wedi dod i ben, yn ymddwyn yn y fath fodd eu bod yn osgoi achosi aflonyddwch i breswylwyr sydd gerllaw.

23. Gofynnir i gwsmeriaid beidio â sefyll o gwmpas yn siarad yn y stryd y tu allan i'r fangre a gofynnir iddynt adael y cyffiniau'n gyflym ac yn dawel.

24. Mae gweithredwr tacsi penodol wedi'i enwebu at ddefnydd staff a chwsmeriaid. Mae rhif ffôn y cwmni yn cael ei hysbysebu i gwsmeriaid. Mae'r gweithredwr a'r holl yrwyr yn ymwybodol y dylent gyrraedd a gadael y fangre mor dawel â phosibl, ni ddylent seinio cyrn fel arwydd eu bod wedi cyrraedd neu adael peiriannau'n rhedeg yn ddiangen.

25. Sicrhewch fod staff yn patrolio'r fangre yn rheolaidd y tu mewn a'r tu allan i oruchwylio ymddygiad priodol cwsmeriaid.

26. Rheoli faint o adloniant rheoledig sy'n digwydd yn y fangre.

27. Bydd yr holl ddrysau a ffenestri allanol ym mhob ystafell yn cael eu cadw ar gau pan fydd y digwyddiadau sy'n cynnwys cerddoriaeth neu leferydd neu adloniant arall sy'n debygol o godi lefel y sŵn, ac eithrio mynediad i'r fangre ac oddi yno.

28. Darperir ardal allanol at ddefnydd cwsmeriaid y cyfleusterau er mwyn gwaredu a chasglu sbwriel.

29. Rhaid gweini diodydd mewn cwpanau plastig neu gwpanau gwydr gwydn pan fydd diodydd yn cael eu hyfed mewn ardaloedd awyr agored.

Amddiffyn plant rhag niwed:

30. Rhaid gweithredu polisi her 25, ac mae'n rhaid gofyn i unigolion sy'n ymddangos eu bod dan 25 oed ac sy'n ceisio prynu alcohol gael am gerdyn adnabod.Yr unig fath o gerdyn adnabod a dderbynnir yw cardiau adnabod PASS, pasbort neu drwydded yrru llun. Gwydrau plastig neu boteli plastig yn unig a ganiateir mewn ardaloedd chwarae i blant, gerddi cwrw ac ardaloedd hamdden, neu mewn unrhyw ardal lle mae'n ofynnol i gwsmeriaid dynnu eu hesgidiau.

31. Bydd cofrestr gwrthodiadau yn cael ei chadw yn y fangre i'w harchwilio gan swyddogion awdurdodedig.

**CADEIRYDD**